

# Minutes



## Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned

---

Date: Dydd Iau, 24 Mawrth 2022

Time: 6.00 pm

Present: Councillors Bishton, Rogerstone and Wentlooge

Gareth Price (Head of Law & Regulation), Pamela Tasker (Governance Officers) and Emma Wakeham (Senior Policy & Partnership Officer)

---

### 1 Ymddiheuriadau

Brian Miles Cyngor Cymuned Gwynllŵg  
Paul Gregory Cyngor Cymuned Graig  
Mandy George Cyngor Cymuned Llanwern

### 2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: 9 Rhagfyr 2021

#### Cytunwyd:

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 9 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.

### 3 Materion yn codi

Dim

### 4 Newid Hinsawdd

Cyflwynwyd yr eitem agenda hon ar Newid Hinsawdd i'r cyfarfod gan Emma Wakeham (Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth).

#### Prif bwyntiau:

Dywedodd yr Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth eu bod wedi arwain ar ddatblygu'r Cynllun Newid Hinsawdd i Gyngor Dinas Casnewydd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

- Y peth cyntaf a ystyriwyd oedd pa fath o gwmpas oedd angen ar gyfer y cynllun. Penderfynwyd ar ddau faes i gyrraedd sero carbon fel sefydliad erbyn 2030 ac i adolygu'r gwasanaethau a ddarparwn er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas at net sero ac ymaddasu i newid hinsawdd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod allan ganllawiau adrodd am weithio ar allyriadau carbon fel sefydliad, felly defnyddiwyd hyn fel gwaelodlin i allyriadau carbon.
- Dangosodd graff allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 y cyngor – roedd allyriadau Cwmpas 1 o ffynonellau oedd ym mherchenogaeth y Cyngor, ac allyriadau Cwmpas 2 o drydan a gwresogi oedd yn cael eu prynu.
- Roedd Cwmpas 3 yn sylweddol ond heb fod ym mherchenogaeth neu reolaeth uniongyrchol Cyngor Dinas Casnewydd sef y gadwyn gyflenwi, nwyddau a bwrcaswyd gennym, dŵr a ddefnyddiwn a theithio ar fusnes.
- Pan wnaed y waelodlin, roedd yn dangos sut y rhannwyd yr allyriadau.

*This document is available in Welsh / Mae's ffurflen hon ar gael yn Gymraeg*

- Unwaith i ni wybod beth oedd allyriadau'r sefydliadau, ystyriwyd y meysydd i ganolbwyntio arnynt, a defnyddiwyd fframwaith Llywodraeth Cymru – Map o'r Ffordd i'r Sector Cyhoeddus – i helpu i benderfynu ar hyn.
- O'r fframwaith hwn, dewiswyd 6 thema wahanol –

*Thema 1: Diwylliant y Sefydliad ac Arweinyddiaeth*

*Thema 2: Ein Hadeiladau*

*Thema 3: Ein Tir*

*Thema 4: Trafnidiaeth a Symud*

*Thema 5: Y Nwyddau a'r Gwasanaeth yr ydym yn eu Caffael*

*Thema 6: Ein Rôl Ehangach*

-Roedd a wnelo Thema 2-5 yn uniongyrchol ag allyriadau carbon ac ystyriwyd thema 1 a 6 rôl ehangach y Cyngor a'r effaith ar y ddinas gyfan.

- Dan Thema 1 ystyriwyd hyfforddiant a chanllawiau i staff ac aelodau etholedig.

-Roedd Thema 2 am wres adnewyddol a lleihau nwy naturiol; ystyriodd thema 3 sut roedd tir yn cael ei reoli, plannu meysydd gan ddefnyddio atebion seiliedig ar natur.

- Ystyriodd Thema 4 gymudo mewn busnes a'r fflyd, gan annog teithio llesol.

- Ystyriodd Thema 5 sut roedd angen i'r Cyngor ddeall allyriadau carbon yn well wrth wneud penderfyniadau am brynu nwyddau a gwasanaethau.

- Ystyriodd Thema 6 gynllunio argyfwng ledled y ddinas a gweithio gyda phartneriaid a chymunedau.

Roedd copïau o'r cynllun i'w cael yn y dolenni ar y cyflwyniad, ac edrychwyd i mewn i bob thema gydag amserlenni, etc a sut y cânt eu cyflwyno.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu rheolwr datblygu unswydd ac y maent yn cefnogi mentrau'r sector cyhoeddus a chymunedol i leihau allyriadau carbon ac ynni.

Roeddent yn hapus i roi cyngor ar gaffael ac roeddent yn chwilio am y prosiectau fyddai'n cael y mwyaf o effaith ar ynni ac allyriadau carbon.

Roedd cyfleoedd hefyd o ran cyllido a chynhaliwyd digwyddiad ar 31 Mawrth 2022-

Digwyddiad Newid Hinsawdd Cwrdd â'r Cyllidwyr lle gallai cynghorau cymuned gwrdd â chyllidwyr.

### **Cwestiynau:**

Holodd cynrychiolydd Gwynllŵg am gynlluniau Cartrefi Cynnes ac a ydynt yn dod dan y pwnc hwn lle rhoddir grantiau'r llywodraeth i wneud cartrefi yn fwy ynni-effeithlon, ac mewn rhai ardaloedd, mae pobl wedi gwella eu tai am eu bod yn hŷn, e.e., ffermdai. Roedd modd gweld y rhain ar wefannau rhai Cynghorau eraill, ond ni welwyd dim tebyg ar gyfer Casnewydd, gan nad oedd dim ar y wefan.

Cadarnhaodd yr Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth fod gan Lywodraeth Cymru Raglen Cartrefi Cynnes, oedd yn gynllun cenedlaethol, ond roedd iddo rai meini prawf cymhwyster, megis derbyn rhai budd-daliadau neu fod ar incwm isel. Y cynllun arall oedd yn cael ei ddatblygu oedd Cynllun Ynni Ardal Leol, i edrych ar ynni adnewyddol ledled y ddinas, ac ar dlodi tanwydd, ond roedd hwn yn dal i gael ei ddatblygu a byddai'n cymryd rhai misoedd i'w weithredu.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg nad oedd y cynlluniau eraill yr edrychwyd arnynt o ran cymhwyster yn destun prawf modd, ac mai'r cymhwyster oedd oedran yr eiddo.

Cadarnhaodd yr Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth y deuai mwy o ffrydiau cyllido ar gael, oherwydd bod Dinas-Ranbarth Caerdydd yn ystyried cynllun i Ddinas-Ranbarth Caerdydd gyfan; byddai'r manylion wedyn yn cael eu hanfon at y cynghorau cymuned. Cytunodd cynrychiolydd Gwynllŵg hefyd i anfon manylion y cynlluniau a welodd at yr Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth.

Dywedodd cynrychiolydd Llangadwaladr eu bod hwy wedi cwblhau eu hyfforddiant llythrennedd carbon, ac y gwelwyd nad oedd llawer eiddo yn addas oherwydd y diffyg insiwleiddio ac na fuasent felly yn addas i bympiau gwres o'r ddaear a gofynnodd a fyddai'r

rheoliadau adeiladu yn newid fel y buasant yn addas ac a fyddai tai yn y dyfodol yn cael eu codi gyda phaneli solar.

Dywedodd yr Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth, yng nghyswllt pypmpiau gwres o'r ddaear, fod angen cyfradd o C ac yn uwch er mwyn bod yn effeithiol. Roedd rhai tai yn awr yn cael eu codi gyda phypmpiau gwres o'r aer eisoes wedi eu gosod, ond nid oedd hyn wedi digwydd yn ardal Casnewydd. Roedd rhai tai eisoes yn dod o dan y rheoliad cywir, ond byddai angen llawer o ôl-ffitio er mwyn gosod pypmpiau gwres. Dywedodd yr Uwch-Swyddog Polisi a Phartneriaeth na wyddai'r ateb ynghylch a fyddai paneli solar yn cael eu gosod ar bob tŷ newydd a godwyd gan mai mater cynllunio fyddai hynny: nid oedd hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

## 5 Sbardun Cymunedol Cyngor Dinas Casnewydd

Gofynnodd cynrychiolydd Gwynllŵg a oedd swyddog yn ei swydd, ac os felly beth oedd ei h/enw.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd swyddog dynodedig, ac mai dyma pam nad oedd manylion wedi eu cyhoeddi ar y wefan. Dywedwyd wrth Gynghorau Cymuned i fewngofnodi i wefan y Cyngor dan ran Tîm Gwarchod Cymunedol y wefan er mwyn cael y rhif generig.

Dywedwyd fod newid yn digwydd ar hyn o bryd i strwythur yr uwch-reolwyr, a bod y gwasanaethau yn cael eu hail-asio er mwyn galluogi symud rhwng meysydd gwasanaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y wybodaeth hon yn dod dan y Tîm Gwarchod Cymunedol dan Michelle Tett. Ar y wefan roedd cyfeiriad e-bost generig a rhif cyswllt, ac roedd ffurflen ar-lein i'w llenwi i roi bod i gais. Roedd tîm amlddisgyblaethol yn rhan o hyn, felly nid un pwynt cyswllt oedd ar gael.

Gwnaeth cynrychiolydd Maerun sylw am swyddogion ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan holi beth oedd eu rôl.

Esboniodd y Cadeirydd fod Wardeniaid Diogelwch Cymunedol yn y Tîm Diogelwch Cymunedol, ac yna fel rhan o hynny, roedd Swyddogion Amgylcheddol a dau Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Roeddent hwy yn cysylltu â'r Heddlu ac asiantaethau eraill. Michelle Tett oedd y rheolwr presennol mewn lechyd Amgylchedd.

Holodd cynrychiolydd Gwynllŵg, o ran gwarchodaeth bersonol i swyddogion y cyngor yn gwneud eu gwaith, fod Cynghorwyr weithiau yn dod yn rhan o sefyllfaoedd, e.e., brawychu, a yw'r sbardun cymunedol yn cynnig unrhyw warchodaeth yn hyn o beth.

Eglurodd y Cadeirydd mai ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd hyn, nid ymddygiad troseddol. Roedd y Dull Sbardun Cymunedol yn fater o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel sŵn a tharfu, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol. O ran brawychu a diogelwch personol, dylid adrodd am y rhain wrth yr Heddlu.

Esboniodd y Cadeirydd fod nifer o fesurau y gellid eu defnyddio i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel-isel, megis rhybuddion cosb benodol, ond nad troseddau oedd y rhain.

Holodd cynrychiolydd Maerun am adrodd am niwsans sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar safle diwydiannol; a oedd hyn yn rhywbeth y gellid defnyddio'r sbardun cymunedol.

Dywedodd y Cadeirydd fod niwsans sŵn statudol yn cael ei drin ar wahân, a phetai niwsans sŵn yn digwydd y dylid adrodd am hyn wrth ochr lechyd Amgylchedd yr adran honno, oherwydd bod dulliau sbardun cymunedol i'w defnyddio ar gyfer lefel isel. Roedd niwsans sŵn statudol ar lefel uwch o lawer, lle'r oedd angen swyddogion iechyd amgylchedd arbenigol i asesu lefel y sŵn. Os mai niwsans sŵn oedd hyn, rhaid adrodd amdano i'r ganolfan gyswllt a fyddai'n ei basio ymlaen i lechyd Amgylchedd, i'w basio i'r tîm, oherwydd bod angen ymchwilio i hyn dan reolau statudol.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun ei fod wedi derbyn e-bost gan Brian Miles o Gyngor Cymuned Gwynllŵg yn dweud mai Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn berchen ar y safle, nad oedd hyn yn rhywbeth y gallai Cyngor Dinas Casnewydd fod yn ymwneud ag ef.

Esboniodd cynrychiolydd Maerun y bu cwynion am y safle ers sawl blwyddyn.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn gwybod am yr achos arbennig hwn ac felly na fedrai wneud sylw.

Crybwyllodd cynrychiolydd Gwynllŵg farn yr awdurdodau am y broses; teimlent eu bod wedi cael eu cam-gynrychioli oherwydd dywedwyd wrthynt y byddai'r mater yn dod dan y sbardun cymunedol.

Holodd y Cadeirydd a oedd y rhain yn gwynion cymwys, oherwydd bod yn rhaid i gwynion fod am ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac nad ffordd oedd hyn o adolygu diffyg gweithredu gan yr heddlu: dull ar y cyd ydoedd o ymdrin ag ymddygiad, e.e., sŵn lefel is.

Holodd cynrychiolydd Gwynllŵg am warchodaeth i aelodau cynghorau cymuned yn y gymuned.

Cadarnhaodd y Cadeirydd mai mater i'r heddlu fyddai hyn, nid i'r sbardun cymunedol, oherwydd na all asiantaethau eraill sy'n rhan o'r sbardun cymunedol ddelio â chwynion am droseddau.

Holodd cynrychiolydd Maerun am ddefnyddio'r sbardun cymunedol dan amgylchiadau lle'r oedd diffyg gweithredu.

Dywedodd y Cadeirydd mai rhywbeth i'w ddefnyddio pan oedd popeth arall wedi methu oedd hyn, a bod yn rhaid i gwynion ymwneud â'r math cywir o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Soniodd cynrychiolydd Maerun am y diffyg gweithredu ar lawer o gwynion am sŵn a llygredd sŵn.

Dywedodd y Cadeirydd fod cwynion am ymddygiad troseddol yn mynd at yr Heddlu, cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel is yn mynd at y Wardeniaid Cymunedol, bod yr hyn y cyfeiriodd cynrychiolydd Maerun ato fel Niwsans Sŵn Statudol yn achos i weithdrefn Cwynion Mewnol Iechyd Amgylchedd. Byddai'n rhaid i uwch-reolwr adolygu hyn fel cwyn corfforaethol.

## 6 Hyfforddiant i Gynghorwyr newydd ar ôl yr Etholiad

Holodd cynrychiolydd Gwynllŵg a oedd gan Gyngor Dinas Casnewydd unrhyw beth yn yr etholiad nesaf ar gyfer cynghorwyr newydd?

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod pecyn dwys ar gael i Gynghorwyd newydd y ddinas, gan gynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Un Llais Cymru sy'n darparu'r hyfforddiant, ac roedd y Pwyllgor Safonau yn awyddus i Gynghorwyr Cymuned dderbyn hyfforddiant petai diddordeb. Gallai Cynghorau Cymuned gael hyfforddiant tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, wedi i gynghorwyr y ddinas dderbyn eu hyfforddiant hwy. Roedd yn bwysig i Gynghorau Cymuned gael hyfforddiant wedi ei deilwrio

Byddai'r Swyddog Cefnogi Llywodraethiant yn cysylltu â'r Cynghorau Cymuned yn y man i drefnu hyn.

Esboniodd y Cadeirydd y byddai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei drefnu, felly byddai sesiynau gweithdy yn cael eu cynnal. Mae modd cynnig modiwl e-ddysgu ar-lein gan Lywodraeth Cymru i aelodau, ond nid oedd y modiwl terfynol ar gael eto. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn newid unrhyw beth yn y Cod Ymddygiad.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun fod unrhyw hyfforddiant sydd ar gael yn dda, ond ei bod yn anodd cael cynghorwyr cymuned i ddilyn yr hyfforddiant.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr hyfforddiant yn orfodol i gynghorwyr dinas.

**Gweithredu:** Byddai'r Cefnogi Llywodraethiant yn dod i gysylltiad â'r Cynghorau Cymuned yn y man i drefnu hyfforddiant.

## 7 Gorfodaeth Cynllunio

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg y carai gael gwell dealltwriaeth o hyn a sut y mae yn gweithio, oherwydd bod llawer o safleoedd yn yr ardal hon dan orfodaeth, ac y gofynnwyd llawer o gwestiynau am pam fod hyn yn cymryd cymaint o amser, etc. Gofynnodd cynrychiolydd Gwynllŵg a fyddai modd edrych ar hyn yn yr hyfforddiant eto, ac mewn rhai achosion, a oedd modd eu dwyn i sylw'r rheolwyr.

Dyweddodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei bod yn anodd gwneud cwyn oherwydd bod gan y swyddogion gymaint o waith; ond roeddent eisiau deall mwy ar y broses, felly byddai'n dda mynd trwy sefyllfaoedd. Wedyn byddai modd gweld rheswm pam fod achosion mor araf. Dywedodd cynrychiolydd Maerun ei bod yn cefnogi popeth a ddywedwyd, a bod y swyddogion Matthew Sharpe a Neil Gunther fis Rhagfyr diwethaf wedi cynnal hyfforddiant ar Orfodaeth. Canlyniad y cyfarfod oedd bod y cyngor cymuned eisiau perthynas at y dyfodol, gan gyfnewid gwybodaeth rhwng Cyngorau Cymuned a'r tîm Cynllunio. Dywedodd cynrychiolydd Maerun ei bod eisiau gwell cydweithrediad rhwng yr adran a chynghorau cymuned. Y teimlad oedd bod y gymuned leol yn agwedd bwysig o gynllunio, a phan oedd gwybodaeth yn cael ei rannu, yna gellid hysbysu'r swyddogion.

Dyweddodd y Cadeirydd fod ceisiadau Cynllunio yn iawn ac yn haws i roi gwybodaeth gyfoes i bobl, ond fod Gorfodaeth yn cymryd amser, a'i fod yn broses wahanol. Roedd y broblem gyfathrebu yn fater i'r Siarter.

Dyweddodd cynrychiolydd Maerun fod y Cyngorau wedi cael sesiwn gyda Neil a Matthew ac mai'r peth pwysig oedd adeiladu perthynas gan nad oedd un yn bodoli nawr.

Cytunodd y Cadeirydd y gallai'r swyddogion cynllunio fynychu cyfarfod yn y dyfodol, a fyddai'n fuddiol petaent yn gallu rhoi cyflwyniad cyffredinol ar y pwnc.

Dyweddodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod angen cyflwyniad ar orfodaeth cynllunio, a bod angen hefyd am gyfarfod wyneb yn wyneb gyda swyddogion ar ryw adeg arall er mwyn helpu i adeiladu perthynas rhwng swyddogion a chynghorau cymuned.

**Cytunwyd:** I gynnal sesiwn gyda Chynghorau Cymuned ar orfodaeth Cynllunio mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 8 **Unrhyw Fater Arall**

Dim

## 9 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

23 Mehefin 2022 @ 6pm